CYNGOR CYMDEITHAS BODFFORDD COMMUNITY COUNCIL

COFNODION CYFARFOD NOS FAWRTH 16eg GORFFENNAF 2024.
NEUADD GOFFA BODWROG.

PRESENNOL:
Cyng Mrs L Roberts (Is - Gadeiryddes) Cyng Ms N Dafydd, J Evans, G Jones, J E Lewis, Miss B Owen, R G Parry, D T Roberts, R R Roberts.
Clerc D Owen.

YMDDIHEURIADAU: Cyng W R Parry.

CYNGHORWYR DATGAN DIDDORDEB. Neb

CAEL COFNODION 18ed MEHEFIN 2024 YN RHAI CYWIR: Cyng R R Roberts, eilio Cyng J Evans.

MATERION YN CODI O`R COFNODION.
Gwyndy, Bodychan, Llandrygarn. Dim mwy o wybodaeth wedi dod i law.

DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF.

1. FPL/2023/15. Cynlluniau dywygeidig wedi`i cyflwyno ynghyswllt y bwriad isod. Cais llawn i godi 15t? fforddiadwy, creu mynedfa newydd i gerbydau ac i gerddwyr ynghyd a chreu ffordd mewnol a gwaith cysyylltiedig ar dir:-
   Haulfryn, Scotland Terrace, Bodffordd.
   Dal i wrthwynebu y cais fel o`r blaen. Lloches Bws i aros lle y mae.
   Cynnig Cyng J E Lewis, eilio Cyng R G Parry. Nid oedd cefnogaeth i`r cais.

2. MIG/2024/1. Cais ymestyn y chwarel wenithfaen bresennol.
   Chwarel Cae`r Glaw, Gwalchmai.
   Dim byd i wneud a Cyngor Bodffordd (Cyngor Trewalchmai)
   Hysbysu y Cyngor Sir.

3. FPL/2021/124. Bodwina Bellaf, Gwalchmai.
   Cyfeirnod dechrau apel CAS-03378-N4H5Q0. dechrau 9ed Gorffennaf 2024. 4 wythnos yr apel 6ed Awst 2024.
   Y Cyngor yw hysbysu fod y cyngor yn hollol gwrthwynebu. Dim newid ar penderfyniad gwreiddiol.
   Cynnig Cyng J E Lewis, eilio Cyng G Jones. Unfrydol.

PENDERFYNIADAU.

4. FPL /2024/81. Cais llawnar gyfer codi dau polytwnel ar dir ger:-
   Bryn Tancwy, Llynfaes.
   Caniatad. Derbyn y canlyniad.

5. FPL/2023/338. Cais llawn ar gyfer codi annedd ynghyd a creu mynedfa newydd ar dir tu ol i :-
   Wenallt, Bodffordd.
   Gwrthodwyd.

Byddai`r cais o ran ei leoliad a`i ddyluniad tir cefn sy`n groes i ffurf adeiledig yr ardal. / Cael effaith negyddol annerbyniol ar amwynder preswyl ac felly yn groes i bolisi.
Y Cyngor yn derbyn y canlyniad, er ein bod wedi ei gefnogi.

GOHEBIAETH (CYNGOR SIR YNYS MON)

6. Swyddog Polisi Rhian W Jones.
Gwobr Aur i bump o Ynys Mon. Ar ol mynychu Palas Buckingham. (Gwobr Dug Caeredin Aur) Antonio a Georgia Roberts. Ysgol Uwchradd Caergybi. Louise Roberts. Ysgol Uwchradd Bodedern. Catrin Williams ac Erin O`Neill. Ysgol Gyfun Llangefni.
Wedi cymryd rhwng 12 mis a dwy flynedd i`w chwblhau.
Llongyfarchiadau mawr iddynt ar ei gorchest.

7. Peiriannydd Cynorthwyol - Nigel Hughes.
Rhif achos MN-624493001.
Ar ol siarad a Cyng Mrs L Roberts ynglun a`r cai am wneud gwelliannau i arafu cerbyd ar ffordd Bron Heulog, Bodffordd.
Am fynd allan i weld y safle 24ain Mehefin er mwyn gweld y sefyllfa, a ba fydd yn bosib i`w wneud i helpu. Efallai mwy o arwyddion neu marciau ffordd.
Cawn weld yn fuan beth fydd yn datblygu.

8. Busnes y Cyngor - Trefor Owen. Is-Gadeirydd Pwyllgor Safonnau.
Hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad.
Is-Gadeirydd Cyng. Mrs L Roberts a`r Clerc Derek Owen i fynychu 14eg Hydref 2024

GOHEBIAETH (ARALL)

9. Plant mewn angen - Tim Pudsey Cymru.
Cynllun Awyr Fawr Grantiau £5000. Gwybodaeth.
Derbyn.

10. Ellis Wyn Roberts.
Cais a fuasai y Cyngor yn ariannu cyhoeddiad ei lyfr / llyfryn Gwyndy a`r Cylch. (£1,300)
Gwerthiant fynd i gronfa Neuadd Goffa, Bodwrog. (Wedi methu cael grant i wneud gwaith, nid oes grant ar gael i`r math yma o lyfr.)
Cafwyd trafodaeth (16ain Gorffennaf 2024) Pasiwyd yn unfrydol i Cyng Ms N Dafydd fynd draw at Mr Roberts am sgwrs a chwilio i fewn am grantiau tuag at gyhoeddi ei lyfr. Mae ganddi hi ffynonellau gwahanol dan sylw.

11. Clercod a Cynghorau Yniongyrchol. Cylchgrawn. Cyng J E Lewis i`w ddadansoddi.

12. Prosiect Mae Hir.
Diweddariad yr uchod. Gwaith datblygu parhaus ac ymgynghori yn y dyfodol. Ceisio ein barn cam nesaf yr ymgynghoriad.
Derbyn y wybodaeth. Nid oedd llawer o ddiddordeb. Gadael.

13. Un Llais Cymru. Tracey Gilmartin.
Ymgynhoriad newydd blaenoriaeth Drafft ar gyfer Diwylliant 2024 - 2030.
Derbyn. Y Cynghorwyr wedi derbyn copiau trwy e-bost.

14. Un Llais Cymru. Wendi Patience.

Dyddiadau Hyfforddiant Gorffennaf Awst a Medi 2024. Gadael dim diddiordeb.

15. Anghynhwysol Cynllun Diffibriliwr - Cerys Green - Calonau Llundain.
Ar gael yn debynnu ein angen. £660 eithrio TAW.
Gadael ar hyn o bryd nid oes angen.

16. Banc Nat West - James Holian.
Er gwybodaeth. Rhai newidiadau sydd yn ymharu a Telerau Cyfrif Busnes. (7ed Hydref 2024)
Derbyn. Ni fydd yn gwneud gwahaniaeth i gyfrif y Cyngor.

RHODDION.

16. Cerebal Palsy Cymru. (Pharlys yr ymennydd)
Pasiwyd i adael y tro hwn.

PLWYFOL.

17. Taliadau a Derbyniadau y Cyngor 2023 / 24. Mantolen i`r Cynghorwyr ai derbyn.
Derbyn. a Mr Alun Foulkes i wneud yr Awdit Mewnol.

18. Adroddiad Elusen William Bold.
R`oedd y Clerc wedi cael Mantolenau yr Elusen o 2012 i 2023.
Wedi ei dadansoddi a gweld beth oedd Gwalchmai a Heneglwys wedi ei gael dros y blynyddoedd. Darllenodd y Clerc y ffigyrau allan yn y cyfarfod. Wedi gweld beth oedd Eisteddfod Bodffordd, Pensinwyr Bodffordd a Maes Chwarae Bodffordd wedi ei gael allan o`r Elusen, r`oedd y Cynghorwyr mewn sioc ac yn ddi-leferydd. Mae wedi ateb beth oedd y Cyngor yn ofyn gan yr Elusen.
Penderfynwyd peidio cofnodi y ffigyra, dim ond rhoi y fantolen gyda llyfr y Cyngor.

19. Cafwyd adroddiad misol gan y Cynghorydd Sirol Ms N Dafydd. Y Cyngor yn ddiolchgar dros ben iddi.

20. Y Cyngor angen bin yn ol wrth y cafn blodau yn Bron Heulog, Bodffordd.

21. Edrych beth ellir ei wneud gyda cyflymdra ceir o Talfryn i Bron Heulog Bodffordd (Stad Cae`r Delyn)

22. Cafwyd ar ddeall fod tramwy yn torri y cyflymdra o`r Eglwys tuag at Capel Gad, Bodffordd. (20mya)

23. Gofynwyd am gael Gan Bwyll i ddod i Pentref Llynfaes, mae y cyflymdra yn aruthrol. (40mya)

MATERION ARIANNOL.

24. Cyfrif Rhedegol. £22,594.33.
Mynwent Gymunedol Bodffordd £8,590.00 rhan o`r uchod))

TALIADAU:

25. Clerc £940.00. (Gorffennaf a Awst) I G Jones (Cyfrifydd) £258.00.
Derbyn cydbwysedd cyfrif, a talu y dyledion i gyd. Cynnig Cyng R R Roberts, eilio Cyng J Evans.

D Owen (Clerc)